*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 969 (Cy.131)

# GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Diystyru Adnoddau) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *26 Mawrth 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddo gan adran 21(2A) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:—

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Diystyru Adnoddau) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Deddf 2001" ("*the 2001 Act*") yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001(**2**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cymorth Gwladol 1948; ac

ystyr "y Rheoliadau Asesu" ("*the Assessment Regulations*") yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992(**3**).

(3) Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig

(**1**) 1948 p.29; yn lle is-adrannau (2A) a (2B) o adran 21 rhoddwyd adran 53 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15). Mae Erthygl 2 yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo yn trosglwyddo holl swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1948, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae adran 68(1) o Ddeddf 2001 yn darparu ar gyfer trin cyfeiriadau at unrhyw Ddeddfau a grybwyllir yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac a ddiwygiwyd gan Ddeddf 2001 fel cyfeiriadau at fersiwn ddiwygiedig y Deddfau. (O ran yr Alban, diddymwyd adran 21 o Ddeddf 1948, i'r graddau yr oedd yn berthnasol i'r Alban, gan adran 95(2) o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (yr Alban) 1968 (p.49), ac Atodlen 9 iddi.

(**2**) 2001 p.15.

(**3**) O.S. 1992/2977; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1993/964; O.S. 1993/2230; O.S. 1994/825; O.S. 1994/2386; O.S. 1995/858; O.S. 1995/3054; O.S. 1996/602; O.S. 1997/485; O.S. 1998/497; O.S. 1998/1730; O.S. 2001/58 ac O.S.2001/1066.

**Diystyru adnoddau**

**2.**—(1) Wrth benderfynu at ddibenion paragraff (a) neu (aa) yn is-adran(1) o adran 21 o'r Ddeddf pa un a yw gofal a sylw ar gael fel arall i berson, rhaid i awdurdod lleol ddiystyru y rhan honno o gyfalaf person nad yw'n fwy na'r terfyn cyfalaf.

(2) At ddibenion paragraff (1) o'r rheoliad hwn, yn ddarostyngedig i baragraff (3)—

(a) Cyfrifir cyfalaf person yn unol â'r Rheoliadau Asesu yn yr un modd â phe bai ef neu hi yn berson y cynigir darparu llety ar ei gyfer neu ar ei chyfer fel y crybwyllir yn is-adran (3) o adran 22 o'r Ddeddf, ac yn berson y mae ei allu neu ei gallu i dalu yn gymwys i'w asesu at ddibenion yr is-adran honno; a

(b) ystyr “y terfyn cyfalaf” yw'r swm ar hyn o bryd a ragnodwyd mewn perthynas â Chymru yn y Rheoliadau Asesu fel y swm na ddylai cyfalaf preswylydd (a gyfrifir yn unol â'r Rheoliadau hynny) fod yn fwy nag ef os yw ef neu hi yn berson i'w asesu fel rhywun nad yw'n gallu talu am ei lety neu ei llety ar y gyfradd safonol(**4**).

(3) Mewn achos lle y mae awdurdod lleol wedi llunio cytundeb neu wedi cytuno i lunio cytundeb taliad gohiriedig (fel y darperir ar ei gyfer yn adran 55 o Ddeddf 2001), rhaid i'r awdurdod lleol pan yw'n gwneud y cyfrif a bennir ym mharagraff (2)(a) yn y rheoliad hwn,] roi effaith i baragraff 1A yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Asesu, fel pe bai'r paragraff hwnnw'n darllen fel a ganlyn—

> “**1A.** In the case of a resident who becomes a permanent resident on or after 7th April 2003 the value of any dwelling which he or she would otherwise normally occupy as his or her only or main residence.”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*D. Elis-Thomas*
26 Mawrth 2003 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) I weld ystyr “cyfradd safonol” *gweler* adran 22(2) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 p.29. Ystyr cyfradd safonol yw cyfradd sy'n cynrychioli'r gost lawn i'r awdurdod o ddarparu'r llety.
(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Diwygiwyd adran 21 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 (p. 29) gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p. 15) trwy amnewid is-adrannau (2A) a (2B). Mae Adran 21 yn darparu ar gyfer llety preswyl a drefnir gan awdurdodau lleol i famau beichiog a mamau sy'n magu a phersonau eraill y mae arnynt, oherwydd eu hoedran, salwch, anabledd neu unrhyw amgylchiadau eraill, angen gofal a sylw nad ydynt ar gael iddynt fel arall. Mae'r is-adrannau newydd yn darparu y gall rheoliadau bennu pa adnoddau neu ddarparu ar gyfer penderfynu pa adnoddau y gall yr awdurdod lleol eu diystyru wrth benderfynu at ddibenion adran 21(1)(a) neu (aa) mewn cysylltiad â pherson pa un a oes ar y person angen gofal a sylw nad ydynt ar gael iddo ef neu iddi hi fel arall ai peidio.

Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth o ran yr adnoddau i'w diystyru at y dibenion hynny. Yn ddarostyngedig i un eithriad, dylid diystyru cyfalaf person hyd at derfyn cyfalaf fel y'i pennir yn Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992. Yn yr achos a eithrir, os yw'r person yn rhywun y mae'r awdurdod lleol wedi cytuno gydag ef i lunio cytundeb talu gohiriedig, bydd yr awdurdod lleol hefyd yn diystyru gwerth prif gartref neu unig gartref y person hwnnw.